



Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

Bwletin y Farchnad HCC

Mehefin 2025



Mae'r Bwletin y Farchnad y mis hwn yn archwilio sut mae gwyliau crefyddol yn dylanwadu ar ymddygiad prynu defnyddwyr ar gyfer cig oen mewn siopau ym Mhrydain Fawr.

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



Defnyddiodd yr ymchwili hon ddata gan Kantar gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau crefyddol allweddol dros gyfnod o bum mlynedd (2020-2025). Aseswyd tueddiadau gwerthu cyfaint, dylanwadau demograffig, ac effeithiolrwydd hydwyddo wrth lunio defnydd cig oen i gyd fel rhan o'r ymchwili hon.

Y PASG



Mae'r Pasg yn parhau i fod y digwyddiad tymhorol mwyaf arwyddocaol ar gyfer cig oen, gan ddangos pigau cyson mewn gwerthiannau cyfaint bob blwyddyn. Er bod gostyngiad bach mewn cyfeintiau cig oen rhwng Pasg 2024 a 2025, priodolwyd hyn yn bennaf i'r perfformiad eithriadol yn 2024. Fe wnaeth y flwyddyn honno elwa o ffenestr hyrwyddo hirach a thywydd ffafriol, a gyfrannodd at ymgysylltiad uwch gan ddefnyddwyr. Darnau rhostio cig oen a welodd y cynnydd mwyaf sylweddol, gyda stêcs cig oen hefyd yn profi hwb yn 2025 oherwydd tywydd heulog a dathliad Pasg hwyrach. Ar draws pob grŵp demograffig, mae'r patrwm prynu yn parhau i fod yn eithaf tebyg; fodd bynnag, mae defnyddwyr wedi ymddol yn tueddu i wneud eu pryniannau yn gynharach yn y cyfnod cyn y Pasg, ac mae'n ymddangos bod yr ymgysylltiad cynnar hwn yn sbarduno twf cyfaint cyffredinol.

GWYLIU MWSLIMAIDD



Ar gyfer gwyliau Mwslimaidd, mae'r data yn cyflwyno darlun mwy cynnil. Mae Eid al-Adha (a elwir hefyd yn Wyl yr Aberth) yn dod i'r amlwg yn gyson fel y digwyddiad mwy effeithiol o ran gwerthiannau cig oen, gyda thwf cyfaint o flwyddyn i flwyddyn yn cael ei arsylwi, yn enwedig ar gyfer darnau i'w rhostio fel cymalau coesau. Mewn cyferbyniad, nid yw'n ymddangos bod Eid al-Fitr (diwedd Ramadan) yn gyrru cynnydd mewn cyfeintiau cig oen, ac nid oes llawer o dystiolaeth o ddarnau penodol yn cael eu ffafrio yn ystod Eid al-Fitr. Mae lefelau hyrwyddo yn ystod Eid al-Adha ac Eid al-Fitr yn parhau i fod yn isel.

Roedd amseriad Ramadan yn gorgyffwrdd â'r Pasg yn 2022, 2023, a 2024, gan ei gwneud hi'n anodd ynysu ei effaith unigol ar alw defnyddwyr. Fodd bynnag, digwyddodd Ramadan yn gynharach na'r digwyddiadau Cristnogol yn 2025, ac ni ddatgelodd y data hwn unrhyw gynnydd mewn gwerthiannau cyfaint cig oen yn Siopau Prydain. Serch hynny, roedd rhai darnau (fel darnau rhostio a golwyth cig oen a) wedi profi twf cyfaint o'i gymharu â'r mis blaenorol. Mae hyn yn awgrymu, er y gall Ramadan ddylanwadu ar ddewisiadau prynu, mae ei effaith ar gyfaint cyffredinol yn llai amlwg ac efallai y bydd angen strategaethau manwerthu gyda mwy o ffocws i sbarduno ymgysylltiad.

Y NADOLIG



Adeg y Nadolig, mae cig oen hefyd yn profi codiad tymhorol, yn enwedig yn ystod y pedair wythnos yn arwain at y gwyliau. Er gwaethaf hyn, mae cig oen yn dal i gynrychioli'r gyfran leiaf o'r categori cig coch yn ystod y cyfnod hwn. Mae twf cyfaint yn ystod y Nadolig yn cael ei sbarduno bron yn gyfan gwbl gan ddarnau rhostio, gyda thoriadau eraill yn parhau i fod yn gymharol statig. Ers 2020, bu cynnydd cyson mewn cyfaint fesul prynwr, er bod Nadolig 2024 wedi gweld gostyngiad bach o'i gymharu â 2023. Mae'n debyg bod y gweithgaredd hyrwyddo cryf yn 2023 wedi cyfrannu at yr anghysondeb hwn. Unwaith eto, mae tueddiadau demograffig yn datgelu gwahaniaeth bach: mae siopwyr wedi ymddeol yn fwy tueddol o brynu yn gynharach yn ystod cyfnod y Nadolig na grwpiau oedran eraill.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae cig oen yn parhau i fod yn gynnyrch tymhorol allweddol ledled y DU, yn enwedig yn ystod y Pasg a'r Nadolig, lle mae ymddygiadau defnyddwyr a gweithgareddau hyrwyddo yn alinio i gynhyrchu cynnydd clir mewn cyfaint. Er bod dylanwad gwyliau Mwslimaidd ar brynu cig oen yn bresennol (yn enwedig yn ystod Eid al-Adha) nid yw'n cael ei hyrwyddo'n fawr iawn. Mae hyn yn cynrychioli cyfle posibl i fanwerthwyr a chynhyrchwyr dargedu'r cyfnodau hyn yn well a datgloi galw ychwanegol trwy strategaethau wedi'u teilwra a hyrwyddiadau diwylliannol atseiniol.


ar agor nawr - MEAT MINDS - ffenestr ymgeisio

Ydych chi'n 21-35 mlwydd oed, yn ymwneud â chadwyn gyflenwi cig coch Cymru, yn angerddol am gynhyrchu a hyrwyddo, ac â diddordeb mewn ymchwili a datblygu? Os felly, gallai Meat Minds fod i chi! Ei nod yw cefnogi a datblygu pobl ifanc yn y gadwyn gyflenwi cig coch trwy greu rhwydweithiau newydd, sesiynau technegol thematig a thrwy fentora. Darllenwch fwy amdano yma a lawrlwythwch y ffurflen gais. **Dyddiad cau 02/07/2025**



'Rhestr Glaswellt a Meillion a Argymhellir' 2025/2026 - ar gael nawr!

Mae 13 math newydd ar y rhestr. Mae'r RGCL yn caniatáu i ffermwyr wneud dewisiadau ar y glaswellt a'r hadau meillion mwyaf priodol ar gyfer eu ffermydd gan ddefnyddio data dibynadwy, annibynnol. Mae'r llyfryn pwrpasol hwn yn offeryn amhrisiadwy i ffermwyr a masnachwyr hadau fanteisio ar y datblygiadau diweddaraf mewn geneteg glaswellt a meillion. Cysylltwch â swyddfa'r HCC i gael copi caled, neu lawrlwythwch yma.



Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos sy'n dod i ben 21^{ain} Mehefin

Roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn sefyll ar **631.8c/kg**. Roedd hyn:

- 7.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 154.9c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 629.0c/kg (- 9.0c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 621.3c/kg (- 6.1c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 499.1c/kg (- 7.4c ar yr wythnos).

Trwybwn – Mai 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 27,600 pen – gostyngiad o 5% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 177,500 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.
 - bustych -6%, heffrod -2%, a theirw ifanc -3%
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 347.4kg (+2.9kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 43,200 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos sy'n dod i ben 21^{ain} Mehefin

Cyfartaledd pris ŵyn* pwysau marw ym Mhrydain oedd **748.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 24.6c ar yr wythnos flaenorol,
- 31.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn gynharach,
- 112.6c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 636.2p/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 28,600 pen. Roedd hyn:

- + 40% ar yr wythnos flaenorol
- 3% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

*Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.

Trwybwn - Mai 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 910,700 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcasau cig oen ar gyfartaledd = 20.7kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 108,300 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – diwedd yr wythnos 21^{ain} Mehefin


Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **207.0c/kg**. Roedd hyn:

- 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 2.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 19.0c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 187.9c/kg).

*Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.


Trwybwn – Mai 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 872,200 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 855,500 pen – cynnydd o 0.4% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 91.0kg (+1.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,600 pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Mai '25

75,900 tunnell
-4% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU
Mai '25

21,900 tunnell
+9% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU
Mai '25

80,400 tunnell
+2% b-a-f

